CLWB GOLFF PORTHMADOG GOLFF CLUB

# Canllawiau ar gyfer Defnydd Diogel a Chyfrifol Bygi Golff

**Cyflwyniad** Mae'r canllaw hwn i gefnogi polisïau'r Clwb ac mae'n ymwneud â defnyddio cerbydau reidio.

Mae gofyn i yrrwyr cerbydau reidio ddilyn a chymeryd sylw o arwyddion a'r cyfarwyddiadau a ddefnyddir ar y cwrs i rybuddio gyrrwyr bygis o ardaloedd perygl posibl neu ardaloedd gwaharddedig ac i ddilyn cyfarwyddyd rhag achosi traul annerbyniol i'r cwrs. Diffinnir yr ardaloedd yn aml gan raffau i sicrhau bod gyrrwyr yn osgoi'r ardaloedd hyn.

• Dylid defnyddio'r cerbyd i symud y gêm ymlaen. Dylid ei yrru ar gyflymder priodol ar gyfer yr amodau a dylid osgoi gyrru yn ôl ac ymlaen yn ormodol, e.e. wrth chwilio am beli golff.

• Ni ddylid defnyddio'r cerbyd yn ymyl nag ar y ti, y lleiniau neu'r llethrau sy'n arwain atynt.

• Ni ddylid defnyddio bygis o fewn 5 llath i ffedog unrhyw lawnt, bynceri, ffosydd neu byllau, ac eithrio wrth ddefnyddio y llwybrau neu bontydd dynodedig..

• Ni ddylid o gwbl yrru bygis rhwng bynceri a lawntiau.

• Rhaid osgoi mannau gwlyb a thir sy'n cael ei atgyweirio.

• Rhaid rhoi'r hawl tramwy i gerddwyr bob amser.

• Rhaid i ddefnyddwyr bygis gydymffurfio a'r nifer uchaf o bobl a setiau o glybiau a fydd yn cael eu cario ar fygi, yn ôl argymhelliad y gwneuthurwr.

• Dylai gyrwyr fod yn gwbl gyfarwydd â rheoli'r bygi a dylid defnyddio brêcs yn ysgafn i osgoi sgidio. Ni ddylid sefyll ar fygi tra ei fod yn symud. Rhaid cadw dwylo a thraed tu mewn i'r bygi bob amser.

• Dylid cymeryd pob gofal wrth symud yn ôl. Rhaid bod yn ofalus ar lethrau ac ochrau.

• Dylid defnyddio y brêc parcio bob amser wrth adael y bygi. Gyrrwch ond ar gyflymder diogel y mae'r tir yn caniatáu.

• Ni chaniateir yfed alcohol a / neu ddefnydd amhriodol o gyffuriau wrth ddefnyddio bygi.

Byddwch yn ofalus wrth groesi'r ffyrdd.

DS. Gellir cyflwyno canllawiau pellach neu gyfyngiadau dros dro os oes angen. Bydd y rhain yn cael eu postio ar y System ClubV1, gwefan neu eu cyfathrebu i aelodau trwy e-bost.

Yn gyffredinol, dim ond yr hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn synhwyrol a moesau da yw'r canllawiau hyn:- e.e. defnyddio llwybrau neu ymyl y rhodfeydd a garw ysgafn i symud ymlaen ar bob twll gan osgoi unrhyw ardaloedd treuliedig neu fwdlyd.

DIOLCH AM EICH CYDWEITHREDIAD.